

## CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 25ain o Fawrth 2014

**Yn bresennol / Present:** Cyng. Bill Green, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Lewis Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Daniel Evans, Cyng Geraint Davies, Cyng Mary Thomas, Cyng Daff Davies, Cyng Alun James, Mr & Mrs Price, Allan Lewis Cyngor Sir Ceredigion, Eifion Evans Cyngor Sir Ceredigion, Eifion Davies ar ran Ymddiriedolwyr y Gofgolofn

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** None

Cydymdeimlwyd a'r Cyng Daff Davies, Abertegan ar farwolaeth ei fam Mair Davies cyn cynghorydd cymuned Llanwenog. Condolences were extended to Cllr Daff Davies, Abertegan on the death of his mother Mair Davies a past community councillor of Llanwenog Parish.

Llongyfarchwyd Gwawr Hatcher ar ddod yn Aelod Iau CFFI Cymru. Gwawr Hatcher was congratulated on being honoured with the title Young Member of the Year for Wales YFC.

1	<b><u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interests</u></b> Nid oedd unrhyw fuddianau personol. There were no personal interests to declare.
2	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth yn gywir gan y Cyng. Mary Thomas ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Gwilym Jenkins. The March minutes were proposed as a true record by Cllr Mary Thomas and seconded by Cllr Gwilym Jenkins.
3.	<b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b>
a.	Cofgolofn Drefach /Drefach War Memorial – Rhoddwyd yr hawl i'r Clerc roi 10 diwrnod i Abbey Masonry ddod nol ati, neu os na fydd yn cael ymateb i fynd at y cwmni arall. The Clerk was given the go ahead to give Abbey Masonry 10 days to respond, or otherwise appoint the other company from Cardiff.
b.	Sedd Wag / Vacant Seat – Roedd un neu ddau enw wedi dod cael eu crybwyll, atgoffwyd y Cynghorwyr mae'r dyddiad cau yw'r 30ain o Fawrth a cytunwyd y byddai'r Clerc yn danfon y CV's ogwmpas yn pecyn cyfarfod mis Mai. One or two people had shown an interest, the Councillors were reminded that the closing date was the 30 <sup>th</sup> March, it was agreed that the Clerk would circulate the CV's in May's meeting pack.
c.	Trafodaethau gyda CFFI Llanwenog / Discussions with Llanwenog YFC – Cytunodd y clwb i ddanfon cynrychioliaeth i gyfarfod canmlwyddiant y rhyfel ac i gefnogi taith gerdded 'Walk for Life'. Maent dal yn fodlon rhoi arddangosfa yn y ciosgs pan fydd y pinfyrdau yn eu lle. The club agreed to send a representative to the centenary of the 1 <sup>st</sup> world war and to support the 'Walk for Life' sponsored walk. They are still willing to put displays in the kiosks when the pinboards are in place.
d.	Taith Gerdded / Walk for Life – Bydd y taith gerdded yn dechrau o Gefn-hafod am 10yb bydd hi'n daith o ryw 5 milltir dros Rhos Ymryson, Ael y Bryn, Glanrafon, Cwrtnewydd a nôl i Gorsgoch am damed i fwyta. The Walk for Life will start at Cefn-hafod at 10pm and it will be a 5 mile walk which will finish up in Gorsgoch.

e.	Cyfarfod y Canmlwyddiant – Centenary meeting – Bydd y cyfarfod yn digwydd yn Neuadd Drefach ar y 30ain o Ebrill am 7.30yp – angen lledaenu’r neges i’r Capeli, y Clerc i ddweud wrth Wyn Cwmdullest. The meeting will be held in Drefach Hall on the 30 <sup>th</sup> April at 7.30pm – the word needs to be spread to the Chapels, the Clerk will tell Wyn Cwmdullest.
4	<b><u>Gohebiaeth</u></b>
a.	Safle’r Ysgol Newydd – New School Location – Daeth Allan Lewis ac Eifion Evans allan i esbonio’r sefyllfa ynglyn a safle’r ysgol newydd. Daeth tri aelod o’r cyhoedd i’r cyfarfod hefyd i wrando ar y drafodaeth a lleisio eu barn. Y safle dan sylw yw’r cae tu ôl i’r gofgolofn yn Nrefach. Roedd y swyddogion sirol am i’r Cyngor Cymuned ystyried a oeddynt yn gefnogol o’r safle ac a oeddent yn hapus i’r gofgolofn cael ei symud. Wedi trafodaeth nid oedd gwrthwynebiad gyda’r Cyngorwyr i’r safle nag i symud y gofgolofn i fewn i ffiniau’r ysgol newydd. Roedd Eifion Davies yn y cyfarfod ar ran ymddiriedolwyr y gofgolofn ac nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i’w symud gan y bydd mewn lle safach ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio. Allan Lewis and Eifion Evans attended the meeting to explain the situation regarding the new location for the new area school. Three members of the public attended the meeting to listen to the discussion and express their opinion. The proposed site is now behind the war memorial in Drefach. The Council officials wanted the Community Council to discuss whether they are happy with the site and whether they are happy for the war memorial to be moved. After a discussion there were no objections from the Councillors to the new site or to moving the War Memorial into the confines of the new school grounds. Eifion Davies, one of the Trustees for the War Memorial was also present and had no objection to it moving stating that it would be in a safer place for the remembrance Sunday service.
b.	Digwyddiad Dathlu Cynnal y Cardi Celebration Day – Llanerchaeron 10fed o Fai 11.00-3.00 10 <sup>th</sup> May.
c.	Lawnsiad Maes Chwarae Di-Fwg – Launch of non-smoking play areas
5.	<b><u>Taliadau a cheisiadau am Arian</u></b>
a.	Cost Cyfieithu Tachwedd – Mawrth £146.76
b.	Treuliau’r Clerc Hydref – Mawrth £210.20
c.	Llogi Neuadd Drefach - £60.00
d.	Rhaff y faner - £6.25
	Cyigwyd ac eiliwyd y taliadau uchod gan Cyng Gwilym Jenkins a’r Cyng Alun James. The above payments were proposed and seconded by Cllr Gwilym Jenkins and Cllr Alun James.
e.	PRISM – None
6.	<b><u>Ceisiadau Cynllunio/ Planning Applications</u></b>
a.	Maeshedydd, Blaencwrt – Conversion of agricultural building into rural enterprise dwelling (Bee

<p>b.</p> <p>c.</p>	<p>Keeping Enterprise) and associated works including demolition of remains of previous dwelling – APPROVED</p> <p>Fronheulog, Llanwenog – Erection of an agricultural shed – APPROVED</p> <p>Maesnewydd, Rhydowen – Erection of Wind Turbine - REFUSED</p> <p>Nodwyd y penderfyniadau uchod. The above decision were noted.</p>
<p>7.</p> <p>a.</p>	<p><b><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></b></p> <p><b>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</b></p> <p>Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 6ed o Fai am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 6<sup>th</sup> May at 7.30pm at Drefach Village Hall.</p>